# Y Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth

## Cofnodion EDT2 04-05

Dyddiad y cyfarfod: 9 Mawrth 2005
Amser y cyfarfod: 9.00 - 12.30
Lleoliad y cyfarfod: Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd

### Yn bresennol

| **Aelod y Cynulliad** | **Etholaeth** |
|---|---|
| Christine Gwyther (Cadeirydd) | Gorllewin Caerfyrddin a De Penfro |
| Alun Cairns | De Orllewin Cymru |
| Leighton Andrews | Rhondda |
| Andrew Davies (y Gweinidog dros Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth) | Gorllewin Abertawe |
| Janet Davies | De Orllewin Cymru |
| Tasmin Dunwoody-Kneafsey | Preseli Sir Benfro |
| Lisa Francis | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Elin Jones | Ceredigion |
| Jenny Randerson | Canol Caerdydd |
| Carl Sargeant | Alun a Glannau Dyfrdwy |

### Swyddogion

| **Enw** | |
|---|---|
| David Pritchard | Cyfarwyddwr, Adran Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth |
| Grant Duncan | Yr Uned Polisi Strategol |

| | |
|---|---|
| Rob Halford | Is-adran Polisi Economaidd |
| Robin Shaw | Prif Weithredwr, Cludiant Cymru |
| Anna Daniel | Dadansoddwr Polisi Ewropeaidd, MRCS |
| Graham Winter | MRCS |

## Yn bresennol

| **Enw** | |
|---|---|
| Michael Beswick | Cyfarwyddwr Polisi Rheilffyrdd, Swyddfa Rheoleiddio’r Rheilffyrdd |
| Alex Hynes | Rheolwr yr Uned Bolisi, Swyddfa Rheoleiddio’r Rheilffyrdd |

## Gwasanaeth y Pwyllgorau

| **Enw** | |
|---|---|
| Siân Wilkins | Clerc |
| Sarah Bartlett | Dirprwy Glerc |

## Eitem 1: Cyflwyniad, Ymddiheuriadau, Dirprwyon

1.1 Nid oedd unrhyw ymddiheuriadau na dirprwyon.

## Eitem 2: Cynllun Gofodol Cymru

## Papur: EDT2 04-05(t1)
## Papur: EDT2 04-05(t2)

2.1 Datganodd Leighton Andrews fudd yn y mater gan ddweud bod ei wraig yn Gyfarwyddwr BT Cymru a hefyd yn Aelod o Fwrdd Gwell Busnes Cymru (Daliad) Cyfyngedig.

2.2 Dywedodd y Gweinidog bod Cynllun Gofodol Cymru yn bwysig iawn i Lywodraeth Cynulliad

Cymru. Mae'n ffordd arloesol o ddatblygu polisi ac yn ystod y 10-12 nesaf bydd y Cynllun yn rheoli sut y caiff adnoddau eu dyrannu.

2.3 Cyflwynodd y swyddogion y newyddion diweddaraf i'r Pwyllgor ynglyn â datblygiad y cynllun. Yr oedd cyfres o weithdai wedi cael eu cynnal ar hyd a lled Cymru gyda dros 400 o bobl yn bresennol, o'r sector cyhoeddus yn bennaf ond hefyd o'r sectorau preifat a gwirfoddol. Syniad y gweithdai oedd mesur barn pobl ynglyn â lle y dylid canolbwyntio yn y lle cyntaf. Wrth ymateb i gwestiwn penodol ynglyn â hysbysebu'r gweithdai hyn, dywedodd swyddogion bod gwahoddiadau wedi cael eu hanfon at bobl a oedd wedi mynychu digwyddiadau blaenorol yn ystod y 18 mis diwethaf a bod y gweithdai wedi cael eu hysbysebu'n eang.

2.4 Dywedodd un Aelod ei bod yn bwysig mynd â datblygu economaidd yn ei flaen ond yr oedd eisiau sicrwydd bod y cynllun yn cymryd materion amgylcheddol i ystyriaeth a gofynnodd sut y byddai'r strategaeth amgylcheddol yn ffitio i hyn. Dywedodd y Swyddogion na fyddai unrhyw un sector yn tra-arglwyddiaethu yn y grwpiau cyfeirio ardal ac y byddent yn cynnwys cynrychiolwyr o sector yr amgylchedd. Bydd y strategaeth amgylcheddol yn cael ei bwydo i mewn i Gynllun Gofodol Cymru trwy iddynt ddatblygu offeryn gwerthuso, a fyddai'n llywio gwaith yr adrannau wrth lunio polisïau ac asesu Fframweithiau Gweithredu Ardal.

2.5 Gofynnodd Aelod am wybodaeth ynglyn ag amserlen y Cynllun a phryd y byddai'r strategaeth datblygu ranbarthol ar gyfer Canolbarth Cymru yn cael ei chwblhau. Dywedodd y swyddogion bod y gweithdai wedi cael eu cwblhau a'u bod yn bwriadu cael rhaglenni gwaith cytunedig erbyn haf 2005. Mae strategaeth economaidd Canolbarth Cymru yn fater ar wahân, sy'n cael ei gyllido'n rhannol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Felly'r fforymau economaidd fydd yn penderfynu sut y bydd y mater yn symud ymlaen. Hefyd gofynnodd yr Aelod am amcangyfrifon o faint fyddai'n gorfod cael ei fuddsoddi yn y rheilffyrdd i gyflawni'r amcanion strategol ar gyfer Canolbarth Cymru yn y Cynllun Gofodol. [Gweithredu: y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth]

2.6 Gofynnodd Aelod am eglurhad ynglyn â'r grwpiau cyfeirio Gweinidogion ac ynglyn â gweithio ar draws ffiniau. Dywedodd y Gweinidog bod y Gweinidogion sydd wedi cael cyfrifoldeb arweiniol ar is bwyllgorau'r Cabinet wedi cael eu penodi i grwpiau cyfeirio Gweinidogion oedd ddim yn eu hetholaeth eu hun.

2.7 Mewn perthynas â gweithio ar draws ffiniau, dywedodd y swyddogion bod hyn yn cael ei annog a bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cyd-ariannu astudiaeth yng Ngogledd Ddwyrain Cymru - Gogledd Ddwyrain Lloegr. Hefyd dywedodd y swyddogion bod Cynllun Gofodol Cymru yn cydnabod bod gweithio ar draws ffiniau ar hyd a lled Cymru yn fater cymhleth iawn. Mae'r cynllun yn rhoi sylw i hyn trwy beidio â gwneud y ffiniau yn rhy anhyblyg.

2.8 Gofynnodd rhai o'r Aelodau a oedd ardal y De Ddwyrain yn rhanbarth ystyrlon o ran datblygu economaidd. Yn aml mae'r enw 'Blaenau'r Cymoedd' yn cael ei ddefnyddio i gyfeirio at y coridor A465 ac mae angen cydnabod anghenion amrywiol yr ardal. Atgoffwyd yr Aelodau gan y Cadeirydd y

byddai'r pwyllgor yn cael trafodaeth lawnach ar Strategaeth Blaenau'r Cymoedd yn y cyfarfod nesaf.

2.9 Mewn ymateb i gwestiwn penodol ynglyn ag olrhain cyllid yng Nghynllun Gofodol Cymru dywedodd y Gweinidog nad oedd unrhyw linellau penodol o gyllid ym mhortffolio pob Gweinidog a chytunodd i godi'r mater gyda'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus. Gweithredu: y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth]

2.10 Croesawodd un Aelod y 'cyflymder ffibr i Rannau/Lleoliadau Busnes' a oedd wedi ei gysylltu'n agos â Strategaeth Eiddo Awdurdod Datblygu Cymru. Ond gofynnodd am ragor o wybodaeth ynglyn â'i ddarparu, yn arbennig mewn ardaloedd tu allan i ardal Amcan 1 er enghraifft Powys. [Gweithredu: y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth]

2.11 Mynegodd rhai o'r Aelodau bryderon ynglyn â newid pwyslais Cymorth Rhanbarthol Dewisol (RSA) a'r effaith y gallai ei gael ar Grant Buddsoddi'r Cynulliad. Dywedodd y Gweinidog y byddai Grant Buddsoddi'r Cynulliad yn parhau fel ag y mae ar hyn o bryd. Hefyd cyfeiriodd at y cynllun peilot ar gyfer menter premiwm grant RSA i gyflogwyr sydd yn cyflogi pobl sy'n economaidd anweithgar fel rhan o brosiect a gynorthwyir gan RSA. Cytunodd i ddarparu rhagor o wybodaeth. [Gweithredu: y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth]

2.12 Codwyd y mater o dalu RSA i gwmnïau nad oeddent yn y pen draw yn creu neu'n cynnal y nifer o swyddi yr oeddent wedi eu haddo. Atebodd y Gweinidog bod yr holl daliadau yn achos Llywodraeth Leol wedi cael eu gwneud yn briodol ac o fewn rheolau'r cynllun. Yn ystod y drafodaeth hon honnwyd bod un Aelod wedi defnyddio'r gair 'anghyfreithlon' mewn perthynas â thaliadau a wnaed ac ar ôl i aelod arall godi pwynt o drefn gofynnodd y Cadeirydd i'r Aelod dynnu'r sylw yn ôl, os dywedwyd hynny. Dywedodd yr Aelod ei fod yn glynu wrth yr hyn a ddywedodd ac na fyddai'n tynnu ei sylwadau yn ôl.

## Eitem 3: Swyddfa Rheoleiddio'r Rheilffyrdd

## Papur: EDT2 04-05 (t3)

3.1 Rhoddodd Michael Beswick amlinelliad o rôl a chyfansoddiad Swyddfa Rheoleiddio'r Rheilffyrdd. Dywedodd bod y Mesur Rheilffyrdd, sydd o flaen y Senedd ar hyn o bryd, yn atgyfnerthu rôl Swyddfa Rheoleiddio'r Rheilffyrdd fel y corff rheoleiddio economaidd annibynnol a dywedodd bod y Swyddfa yn ystyried ei rôl arfaethedig fel corff annibynnol rheoleiddio diogelwch yn un bwysig iawn. Mae Swyddfa Rheoleiddio'r Rheilffyrdd wedi croesawu rôl y gweinyddiaethau datganoledig o ddynodi pa wasanaethau fydd eu hangen. Mae'r Strategaeth Gorfforaethol ddrafft, y maent yn ymgynghori yn ei chylch ar hyn o bryd, yn canolbwyntio'n bennaf ar Network Rail a chroesawodd Michael Beswick gyfraniad y Pwyllgor i'r ymgynghori.

3.2 I ddechrau, cyfeiriodd y Pwyllgor ei sylwadau at y Gweinidog ynglyn â'r pwerau cyfyngedig y byddai'r Mesur Rheilffyrdd yn eu rhoi i Gymru. Yr oeddent yn bryderus na fyddai'r pwerau cyfyngedig

hyn yn arwain at well gwasanaethau yng Nghymru. Atebodd y Gweinidog nad oedd o'r farn y byddai Cymru dan anfantais yn sgil y pwerau y byddai'r Mesur yn eu rhoi i'r Cynulliad Cenedlaethol. Dywedodd na ellid cymharu'r sefyllfa gyda'r sefyllfa yn yr Alban oherwydd bod rhwydwaith rheilffyrdd yr Alban yn llawer iawn mwy hunan-gynhwysol. Ychwanegodd bod y pwerau newydd yn dod ag atebolrwydd yn eu sgil, ond dywedodd un o'r Aelodau bod yr Alban wedi derbyn cyllid ychwanegol ar gyfer hyn trwy setliad fformiwla Barnett.

3.3 Mewn perthynas â gwelliannau i'r seilwaith, dywedodd Swyddfa Rheoleiddio'r Rheilffyrdd eu bod yn cydnabod nad oes gan Railtrack record dda o ran datblygu a darparu cynlluniau. Un o'r pethau y mae'n rhaid i Network Rail ei wneud yn awr yw datblygu ei rôl o wella'r rheilffyrdd yn effeithlon.

3.4 Wrth ymateb i gwestiwn ynglyn â dynodi targedau cynhyrchu dywedwyd y byddai'r Mesur Rheilffyrdd yn galluogi Cynulliad Cenedlaethol Cymru i ddynodi gwasanaethau a phrisiau ar gyfer masnachfraint Cymru a'r Gororau ac i dalu am welliannau i'r rheilffyrdd. Eu rôl yw sicrhau bod cynnyrch Network Rail yn ddigonol er mwyn cyflawni a darparu'r gofynion rhesymol ar gyfer y gweithredwyr trenau a'r cyllidwyr. Hefyd bydd yn rhaid i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gael rhyw fath o gontract gyda Network Rail ar gyfer unrhyw gynlluniau gwella y mae'r Cynulliad yn eu cyllido.

3.5 Mewn perthynas â chau rheilffyrdd, cadarnhaodd Swyddfa Rheoleiddio'r Rheilffyrdd mai'r awdurdodau sy'n ariannu a fydd yn gwneud cynigion ynglyn â chau ar ôl i'r Mesur Rheilffyrdd gael ei fabwysiadu. Byddai'n rhaid iddynt gael eu hasesu gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn ôl canllawiau cau, a chael eu hardystio gan y Swyddfa Rheoleiddio.

3.6 Mynegodd un o'r Aelodau bryder ynglyn â'r blaenoriaethau cyllido a'r effaith yr oedd pwysau am seilwaith a gwasanaethau mewn lleoedd eraill yn y Deyrnas Gyfunol yn eu cael ar Gymru. Dywedodd y Swyddfa Reoleiddio bod ganddynt ddyletswydd benodol o dan y Mesur i roi sylw i strategaethau'r Cynulliad Cenedlaethol. Hefyd yr oedd yn rhaid iddynt fod yn fodlon bod Network Rail yn cael ei ariannu'n briodol i ddarparu ei ymrwymiadau yng Nghymru, naill ai trwy arian uniongyrchol neu trwy'r cytundeb masnachfraint.

3.7 Gofynnodd un Aelod, pe na byddai Mesur Trafnidiaeth Cymru yn cael ei dderbyn yn y Senedd bresennol, a fyddai hyn yn effeithio ar y Mesur Rheilffyrdd, o ystyried bod llawer o ddarpariaethau ym Mesur Trafnidiaeth Drafft Cymru wedi cael eu symud i'r Mesur Rheilffyrdd. Dywedodd y Swyddfa Rheoleiddio ei bod yn credu bod y strwythur yn y Mesur Rheilffyrdd yn ddigonol i gwrdd ag anghenion y gweinyddiaethau datganoledig. Er y byddai'n ddymunol i Gymru gael corff megis y Pwyllgor Defnyddwyr Cludiant Teithwyr arfaethedig, nid yw'n hanfodol cael hynny o'r cychwyn cyntaf, ac yr oedd y Swyddfa yn siwr y gellid rhoi trefniadau yn eu lle i sicrhau bod llais teithwyr ar y rheilffyrdd yn cael ei glywed.

3.8 Mynegodd yr Aelodau bryder ynglyn â gorlenwi ar rai trenau a'r ystyriaethau iechyd a diogelwch amlwg a oedd yn codi o hynny. Dywedodd Swyddfa Rheoleiddio'r Rheilffyrdd y byddant yn cymryd cyfrifoldeb am hyn oddi wrth yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch os bydd y Mesur

Rheilffyrdd yn cael ei dderbyn. Byddai ganddynt y pwer i osod gorchmynion gwella os bydd arferion anniogel. Er bod gorlenwi yn annymunol i gwsmeriaid nid oeddent yn siwr bounrhyw dystiolaeth bod gorlenwi yn fater iechyd a diogelwch. Dywedodd y Cadeirydd nad oedd yn cytuno â’r gosodiad nad yw gorlenwi ddim yn fater iechyd a diogelwch a chytunodd y pwyllgor i dynnu sylw at hyn yn ei gyflwyniad i ymgynghoriad Swyddfa Rheoleiddio’r Rheilffyrdd.

3.9 Mewn perthynas â chael gwasanaethau a seilwaith cymharol drwy’r Deyrnas Unedig, dywedodd y Swyddfa Rheoleiddio ei bod eisiau ymgysylltu llawer mwy gyda’r gweinyddiaethau datganoledig a fyddai’n cyllido’r gwasanaethau fel rhan o’r adolygiad nesaf o’r taliadau yn 2009. Yr oeddent eisiau gosod y rheolau’n glir ar gyfer buddsoddi yn y rhwydwaith rheilffordd ar draws y rhwydwaith, gan sicrhau bod cydbwysedd rhwng rhanbarthau a sicrhau y gellid darparu’r rheilffyrdd yn fwy effeithiol.

3.10 Gofynnodd Aelod pa rôl oedd gan y Swyddfa Rheoleiddio mewn monitro gwasanaethau lle yr oedd cwmni rhedeg trenau yn rhoi bws yn lle’r gwasanaeth arferol. Dywedodd y Swyddfa mai mater i’r SRA oedd hynny ar hyn o bryd ac y byddai’n cael ei drosglwyddo i’r Adran Drafnidiaeth ar ôl y Mesur Rheilffyrdd. Un o’r prif resymau pam bod gwasanaethau bws yn cael eu rhoi yn lle gwasanaethau trên oedd oherwydd gwaith peirianegol. Gyda hyn, byddant yn lansio ymgynghoriad ynglyn â’r drefn meddiannau ac ar effeithiolrwydd Network Rail yn gwneud y gwaith.

3.11 Wrth ddod â’r drafodaeth i ben cytunodd y Cadeirydd i lunio llythyr i Swyddfa Rheoleiddio’r Rheilffyrdd ynglyn â’r materion a godwyd yn y pwyllgor ac i’w ddosbarthu i’r Aelodau. [Gweithredu: Clerc]

## Eitem 4: Cymorth Rhanbarthol

## Papur: EDT2 04-05(p4)

4.1 Cyflwynwyd y papur gan y swyddogion. Dywedwyd bod y Comisiwn wedi rhoi diwygiadau arfaethedig i’r Fframwaith Cymorth Rhanbarthol ger bron ym mis Ebrill 2004. Ddiwedd mis Rhagfyr 2004, cafodd y cynigion hyn eu diwygio i gynnwys pryderon yr Aelod Wledydd. Cynhaliwyd cyfarfod amlochrog i drafod y diwygiadau diweddaraf ar 1 Chwefror, gyda’r Aelod Wledydd yn cael tan 1 Mawrth i gyflwyno ymatebion ysgrifenedig. Mae’r Comisiwn yn bwriadu rhyddhau rheoliadau drafft ym mis Mai 2005, gyda chyfarfod amlochrog arall wedi ei gynllunio ar gyfer yr haf ac mae’r Canllawiau i gael eu cwblhau erbyn yr hydref.

4.2 Mae’r Deyrnas Unedig, Ffrainc, yr Almaen ac Awstria wedi mynegi pryderon ynglyn â’r cynigion gwreiddiol gan y gallai’r uchafswm grant arfaethedig a’r gwahaniaethau rhwng Ardaloedd a Gynorthwyir yn sgil y cynigion hynny, waethygu’r broblem o symud buddsoddiadau i’r dwyrain. Gallai hynny danseilio gwerth y buddsoddi rhanbarthol cynharach yn ardaloedd difreintiedig 15 o Aelod Wledydd yr Undeb Ewropeaidd. Yr oedd yr Aelod Wledydd hefyd yn bryderus nad oedd y Map Cymorth Rhanbarthol yn cynnwys digon o hyblygrwydd i dargedu cymorth lle mae mwyaf ei angen. Hefyd nid oedd y Comisiwn wedi gwneud unrhyw gyfeiriad pellach at y Prawf Effaith Sylweddol

arfaethedig.

4.3 Yr oedd diwygiadau’r Comisiwn yn cynnwys gostyngiad yn uchafswm y grant sy’n daladwy ac effaith hynny oedd gwastatau’r gwahaniaethau. Mae’r newidiadau hyn yn rhoi’r Deyrnas Unedig a Chymru mewn sefyllfa ychydig mwy ffafriol mewn cyd-destun rhyngwladol. Er bod llywodraeth y Deyrnas Unedig yn cydnabod y consesiynau a wnaed gan y Comisiwn, yr oedd y llywodraeth wedi ysgrifennu at y Comisiwn ar 1 Mawrth i ddweud nad oeddent wedi mynd yn ddigon pell ac, mewn egwyddor, na ddylai’r grant fod yn fwy na 50% o gost y prosiect. Cytunodd y Cadeirydd i ddosbarthu copi o ymateb y Deyrnas Unedig i aelodau’r Pwyllgor. [Gweithredu: Cadeirydd/Clerc].

4.4 Yn eu cynigion diwygiedig, yr oedd y Comisiwn wedi tanlinellu cefnogaeth barhaus i ardaloedd NUTS2 fel sail i’r map ardaloedd a Gynorthwyir. Oherwydd pwysau gwleidyddol oddi wrth Aelod Wledydd yn y cyfarfod amlochrog ym mis Chwefror, yr oedd y Comisiwn wedi dangos parodrwydd i ystyried caniatáu ychwanegiad cyfyngedig at yr ardaloedd a gynorthwyir, efallai trwy roi statws trosiannol i rannau o ardaloedd presennol Erthygl 87(3)c. Gofynnwyd i’r Aelod Wledydd gyflwyno syniadau ynglyn â’r ffordd orau i benderfynu pa ardal i’w gynnwys. Yr oedd ymateb y Deyrnas Unedig wedi awgrymu y gallai’r ardal ychwanegol gael ei phenderfynu trwy ddefnyddio fformiwla economaidd neu trwy weithredu rhwyd ddiogelwch.

4.5 Croesawodd yr aelodau y newyddion diweddaraf a gofynnwyd a ellid dweud yn eglur beth fyddai sail y fformiwla economaidd. Dywedodd y swyddogion y byddai’n yn seiliedig ar Gynnyrch Mewnwladol Crynswth y pen ac y gallai hefyd gael ei gysylltu â meini prawf atodol er enghraifft cyflogaeth neu ddiweithdra.

4.6 Dywedodd y swyddogion bod yr ymateb gwreiddiol oddi wrth Lywodraeth y Deyrnas Unedig yn dadlau bod NUTS3 yn cynnig mwy o gyfle na NUTS2 i dargedu cymorth ond yr oedd y Comisiwn wedi ailadrodd eu bwriad i ganolbwyntio ar Ardaloedd a Gynorthwyir ar lefel NUTS2. Yr oedd hyn felly i bob pwrpas yn lladd dadl y Deyrnas Unedig dros ddefnyddio ardaloedd NUTS3 fel sail i’r map o ardaloedd a gynorthwyir. Serch hynny dywedodd y swyddogion, pe byddai’r Comisiwn yn cytuno i drefniadau trosiannol ar gyfer ardaloedd presennol 87(3)c, y byddai hyn, yn ôl y diffiniad, yn berthnasol i ardaloedd o dan ardal NUTS2. Pe byddai hyn yn cael ei weithredu mae posibilrwydd y gellir sicrhau cymorth buddsoddi parhaus i ardaloedd yng Nghaerdydd, Casnewydd, Powys a Sir y Fflint sy’n elwa ar hyn o bryd o statws Erthygl 87(3)c. Cytunodd y swyddogion i ddarparu adroddiad yn diweddaru’r Pwyllgor ynglyn â’r cyd-derfynau rhwng Cronfeydd Strwythurol a’r Map Cymorth Rhanbarthol a’r broses y bydd y Comisiwn Ewropeaidd yn ei defnyddio i ddod i benderfyniad ynglyn ag adolygu Canllawiau Cymorth Rhanbarthol. [Gweithredu: Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth]

## Eitem 5: Adroddiad y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth

## Papur: EDT2 04-05 (t5)

5.1 Cyn symud ymlaen i drafod adroddiad y Gweinidog, gofynnodd y Cadeirydd i un o'r Aelodau dynnu yn ôl sylw a wnaeth yn gynharach yn y cyfarfod ynglyn â 'thaliadau anghyfreithlon', o dan Reol Sefydlog 8.21. Dywedodd yr Aelod nad oedd yn siwr ei fod wedi defnyddio'r gair 'anghyfreithlon', ond os oedd wedi ei ddefnyddio yr oedd yn ei dynnu yn ôl.

5.2 Cyflwynodd y Gweinidog ei adroddiad. Dywedodd bod Glenn Massey o Price Waterhouse Coopers, wedi cael secondiad fel cyfarwyddwr lansio Banc Gwybodaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru. Bydd y Banc Gwybodaeth yn canolbwyntio'n llwyr ar ddarparu gwasanaeth wedi ei deilwrio i gwmnïau sydd â'r potensial i dyfu'n gryf yn ystod y blynyddoedd sydd i ddod, yn eu helpu i ddod o hyd i'r gefnogaeth orau sydd ar gael iddynt yn y sector cyhoeddus neu'r sector preifat i'w helpu i gyflawni eu nodau. I ddechrau bydd y banc yn gweithio gydag oddeutu 50 o gwmnïau Cymru. Bydd y banc yn cael ei dreialu fel busnes yn ystod yr haf eleni a bydd yn rhan bwysig o'r adran Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth newydd sydd wedi ei huno yn Llywodraeth Cynulliad Cymru.

5.3 Mewn perthynas â Gwastraff Peryglus, dywedodd rhai o'r Aelodau eu bod yn bryderus ynglyn â dosbarthu, monitro a storio gwastraff peryglus. Tynnodd un o'r Aelodau sylw at y Gyfarwyddeb Diwedd Oes Cerbydau arfaethedig a gofynnodd a oedd cynlluniau gwastraff peryglus wedi cael eu sefydlu ar gyfer yr adeg pan fydd y gyfarwyddeb yn dod i rym.

5.4 Wrth ymateb nododd y Gweinidog bryderon yr Aelodau a dywedodd y byddai'n adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar ôl ei gyfarfod gyda'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad, a oedd yn gweithio gydag Asiantaeth yr Amgylchedd ynglyn â gwastraff peryglus. [Gweithredu: y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth]. Dywedodd y Gweinidog eu bod yn gweithio gyda'r Awdurdodau lleol i sicrhau bod mesurau yn bodoli i weithredu'r gyfarwyddeb diwedd oes cerbydau.

5.5 Ar y cwestiwn penodol o gerbydau rheilffyrdd, dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor bod y cerbydau'n cael eu cynnal a chadw yn nepo Canton yng Nghaerdydd. Dywedodd y swyddogion bod y fantolen ar gyfer prydlesu cerbydau yn £50 miliwn a bod hanner hynny yn gostau prydlesu a chynnal a chadw a bod y gweddill yn gostau rhedeg. Dywedodd y swyddogion hefyd nad oedd unrhyw gerbydau ychwanegol ar gael ar gyfer Rheilffordd y Cambrian.

5.6 Mewn ymateb i gwestiynau penodol dywedodd y Gweinidog bod y gwaith adeiladu yn nherfynell South Hook yn Aberdaugleddyf wedi bod yn hwb mawr i Economi Cymru. Dywedodd Swyddogion y bydd bron i 1,500 o swyddi'n cael eu creu yn ystod cyfnod adeiladu'r derfynell ac y bydd 50 i 100 o swyddi yn yr Orsaf ynni. Cytunwyd y byddent yn darparu mwy o wybodaeth ynglyn â nifer y swyddi a ragwelir [Gweithredu : Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth].

5.7 Mewn perthynas â'r ymweliad â Navarre cytunodd y Gweinidog i ddarparu'r adborth a gafwyd gan y cynrychiolwyr Llywodraeth Leol. [Gweithredu: Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth]

5.8 Nododd y Gweinidog bod datblygu menter chwaraeon dwr Biwmares yn fater cymhleth a bod y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad yn gweithio gyda Defra i geisio ei ddatrys. Yn Aberdaugleddyf roedd problem ynglyn â thirddaliad, ac roedd hyn hefyd yn cael ei ddatrys.

5.9 Roedd y Gweinidog yn cydnabod bod blychau ffôn yn hollbwysig mewn ardaloedd gwledig ac yr oedd wedi codi’r mater gyda phanel defnyddwyr Ofcom ac roedd cyflwyniad wedi cael ei wneud mewn ymateb i’r ymgynghori.

5.10 Gofynnodd un aelod beth oedd y sefyllfa ddiweddaraf ynglyn â’r cynlluniau arfaethedig i gynnig consesiynau teithio i bobl hyn ar drafnidiaeth gymunedol. Cysurwyd y pwyllgor gan y swyddogion nad oedd y cynllun hwn wedi cael ei roi o’r neilltu a’i fod yn cael ei archwilio gyda golwg ar ei roi ar waith fesul cam. Nid oedd unrhyw amserlen ffurfiol ar gyfer ei weithredu.

5.11 Mewn ymateb i gais gan Aelod am fanylion pellach ynglyn â’r cynnydd a fu gyda nifer o agweddau ar Gynllun Ymateb Corws, yn benodol ynglyn â chanolfannau gweithredu dysgu, cytunodd y Gweinidog i ddarparu nodyn i’r Pwyllgor [Gweithredu: Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth]. Hefyd cytunodd y Gweinidog i roi copi i’r Pwyllgor o’r adolygiad a wnaeth y WDA o’r Gronfa Datblygu Gwybodaeth. [Gweithredu: Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth]

5.12 Gofynnodd rhai aelodau a oedd gan y Gweinidog unrhyw gynlluniau i ddatblygu technoleg ynni o’r môr. Wrth ymateb dywedodd y Gweinidog bod WEFO wedi llofnodi 3 prosiect i edrych ar dechnoleg forol ac y bydd y map llwybr ynni a ddaw allan yn y gwanwyn yn edrych ar gynhyrchu ynni adnewyddadwy o’r môr.

5.13 Mewn ymateb i bryderon yr Aelodau ynglyn â dyfodol DARA yn Sain Tathan, dywedodd swyddogion bod pwyllgor llywio wedi cael ei sefydlu i edrych ar y diwydiant awyrofod ac ar Sain Tathan yn benodol. Byddai’r Gweinidog yn ystyried rhoi nodiadau i’r Pwyllgor o gyfarfodydd y grwp llywio. [Gweithredu: Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth]

5.14 Gofynnodd un aelod am y sefyllfa ddiweddaraf ynglyn â chau cyffordd ar yr A47 yng Ngheredigion. Dywedodd y Swyddogion fod ei chau yn fater i ddiogelwch y ffyrdd a’u bod yn gweithio gyda’r Cyngor i ddod o hyd i ateb.

5.15 Mewn ymateb i ddau gwestiwn penodol gan Aelodau cytunodd y Gweinidog i ddarparu adroddiad mwy manwl yn y cyfarfod nesaf ynglyn â’r cwestiwn o garthu yn Afon Dyfrdwy ac effaith hynny ar Airbus. Cytunodd hefyd i ddarparu gwybodaeth ynglyn â’r prosiect Gateway yn Sir y Fflint a’r effaith yr oedd yn ei gael ar gynlluniau Corus at y dyfodol. [Gweithredu: Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth]

## Eitem 6: Blaenraglen Waith y Comisiwn Ewropeaidd

## Papur: EDT2 04-05 (t6)

6.1 Cyflwynodd swyddogion y papur, oedd yn amlinellu blaenoriaethau allweddol rhaglen waith y Comisiwn ar gyfer y flwyddyn nesaf. Roedd yr Arlywydd Barosso wedi nodi creu swyddi a thwf economaidd fel blaenoriaethau i'r Senedd gyfredol.

6.2 Croesawodd y Cadeirydd y dull o weithredu yr oedd y swyddogion yn awr yn ei roi gerbron, a fyddai'n galluogi'r pwyllgor i fod yn fwy strategol ac yn caniatáu iddynt ddylanwadu ynghynt ar benderfyniadau a fyddai'n effeithio ar Gymru.

6.3 Cytunodd yr Aelodau bod cydlyniad/cymorth y wladwriaeth a chymorth rhanbarthol yn faterion y byddent yn parhau i ganolbwyntio arnynt. Awgrymwyd y byddai'r Pwyllgor yn ystyried canllawiau strategol ar gyfer polisi cydlyniad ym Mehefin 2005..

6.4 Mynegodd yr Aelodau ddiddordeb hefyd yn y Papur Gwyrdd ar Effeithiolrwydd Ynni Ewropeaidd yn ogystal ag yn yr wybodaeth ddisgwyliedig ar ynni adnewyddadwy .

6.5 Gofynnodd Aelod am fanylion pellach ynglyn â'r materion oedd yn ymwneud â Thechnoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu ac Eiddo Rhyngwladol. Cytunodd y Swyddogion i ddarparu gwybodaeth bellach. [Gweithredu: Y Clerc]

## Eitem 7: Polisi Gwyddoniaeth - diweddariad

## Papur: EDT2 04-05 (t7)

7.1 Ystyriodd y pwyllgor y dewisiadau ar gyfer yr adolygiad a chytunwyd y byddent yn ymgynghori'n eang unwaith y bydd cynghorydd arbenigol wedi cael ei benodi, tra'n dechrau casglu tystiolaeth lafar oddi wrth gynrychiolwyr allweddol yn y sector.

7.2 Dywedodd y Gweinidog y bydd rhaid i'r termau cyfeiriol oedd eu hangen gymryd i ystyriaeth y gwaith oedd eisoes wedi cael ei gyflawni gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, a bod rhaid iddynt fod â mwy o ffocws. Mewn ymateb, dywedodd y Cadeirydd na chytunwyd eto ar y termau cyfeiriol ac y bydd y Pwyllgor yn eu hystyried unwaith bod y cynghorydd arbenigol wedi cael ei benodi.

7.3 Ni chynigodd y Pwyllgor unrhyw farn ar hyn o bryd ynglyn ag aelodaeth y grwp cyfeiriol.

## Eitem 8: Cofnodion y cyfarfodydd blaenorol

## Papur: EDT2 03-05 Cofnodion cyfarfod 9 Chwefror 2005
## Papur: EDT2 03-05 Camau gweithredu sydd heb eu cyflawni

8.1 Cytunwyd bod y cofnodion yn gywir.